


1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol

Astudiaethau uwchraddedig mewn

# Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Graddau ymchwil | t.7 |
| Ein hymchwil | t.8 |
| Cyflogadwyedd | t.10 |
| Gweithgareddau allgyrsiol | t.12 |
| Proffiliau myfyrwyr | t.13 |


**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Medi 2022), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

Croeso i'r adran Wleidyddiaeth Ryngwladol cyntaf yn y byd.

Mae astudio gwleidyddiaeth yn gwbl angenrheidiol os am fagu dealltwriaeth drylwyr o natur ein byd cyfnewidiol. Yn wir, a ninnau bellach yn byw trwy gyfnod a nodweddir gan newid gwleidyddol arwyddocaol ar sawl lefel mae'r pwnc yn un sy'n meddu ar berthnasedd eithriadol.

Yng Nghymru, mae'r trafod ynglŷn â natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus ac, yn gynyddol, lefelau trethiant, yn debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd y trafodaethau hyn yn digwydd fwyfwy yng nghyd-destun newidiadau ehangach i natur gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig (DU), wrth i'r dadlau ynglŷn â'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) godi cwestiynau dwys ynghylch natur cyfundrefn economaidd y wladwriaeth, ynghyd â seiliau ei chyfansoddiad tiriogaethol.

Ymhellach, ar y llwyfan rhyngwladol, mae galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang - rhai ohonynt yn gyfarwydd ac eraill yn newydd – er enghraifft, ymateb i newid hinsawdd, ymdrin ag ymlediad arfau niwclear neu ymateb mewn modd teg i symudiadau poblogaeth rhyngwladol. O ystyried y cyd-destun hwn, mae nawr yn adeg amserol i astudio ar lefel uwchraddedig ym maes gwleidyddiaeth neu gysylltiadau rhyngwladol.

Ceir yma ysgol fywiog i raddedigion sy'n adlewyrchu ein proffad o feithrin myfyrwyr uwchraddedig rhagorol ers degawdau. Rydym yn denu unigolion o bedwar ban byd sydd ymhlith y gorau a'r mwyaf disglair – unigolion sydd yn awyddus i ddod i astudio mewn amgylchedd ysgolheigaidd ysgogol. Mae ein holl staff academaidd yn ymchwilwyr gweithgar, a bydd yr arbenigedd eang yn yr Adran yn rhoi ichi'r cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysicaf a mwyaf ysgogol ym maes gwleidyddiaeth ryngwladol, o astudio rhyfeloedd, gwrthdaro, strategaeth a diogelwch i'r drefn fydol, damcaniaeth ryngwladol, ôl-drefedigaethedd, gwleidyddiaeth Gymreig, a moeseg.

Mae gennym enw da am ragoriaeth ymchwil ac addysgu. Amlygwyd hyn pan farnwyd bod 87% o'n hymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol (REF 2021) a phan roddwyd ni ymhlith y pum uchaf yn y DU am fodlonrwydd â'r addysgu, y cwrs a'r adborth ym maes Gwleidyddiaeth (The Guardian League Table 2022). Yn ogystal, cafodd Prifysgol Aberystwyth ei henwi yn brifysgol orau y Deyrnas Unedig am ansawdd ei dysgu gan Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times yn 2018 a 2019.

Mae ein hamgylchedd dysgu yn croesawu staff a myfyrwyr o bob rhan o'r byd ac mae hynny'n creu cymuned ryngweithiol, fywiog sy'n gwneud cyfraniad hollbwysig i ymchwil arloesol ein hadran ac sy'n sail i ddatblygiadau newydd yn y ddisgyblaeth. Pa un a eich bod â diddordeb mewn deall sail gysyniadol gwleidyddiaeth ryngwladol neu oblygiadau polisïau ymarferol, cewch fod yn rhan o adran sydd ar flaen y gad yn mynd i'r afael â'r heriau a osodir gan 'sut y gallem fyw' yn yr ugeinfed ganrif ar hugain.

Mae pawb yma yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn edrych ymlaen at eich croesawu i'n cymuned fywiog o fyfyrwyr a staff.

**Patrick Finney**
**Pennaeth yr Adran**



# Ein cyrsiau

## Graddau a ddysgir


Cysylltiadau Rhyngwladol t.3

Gwleidyddiaeth Ryngwladol t.4

Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth t.6


## Graddau ymchwil


MPhil, PhD t.7




# Cysylltiadau Rhyngwladol

## MA

Byd ansefydlog yw’r hyn sy’n wynebu myfyrwyr cysylltiadau rhyngwladol yn y 21ain ganrif. Mae strwythurau grym ac awdurdod yn cael eu hail-lunio’n sylweddol neu hyd yn oed eu rhwygo i lawr yn llwyr wrth i batrymau newydd o gysylltiadau byd-eang a ffurfiau newydd o hunaniaeth wleidyddol ddod i’r amlwg. Trwy gyfrwng y broses hon, mae tirlun gwleidyddiaeth gyfoes y byd yn newid yn gyflym, mewn ffyrdd trawiadol ac annisgwyl yn aml.

Ar yr un pryd, mae datblygiadau dramatig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ogystal â datblygiadau pellgyrhaeddol mewn trefniadaeth economaidd a chymdeithasol, yn gofyn am ddirnadaeth newydd o’r hyn yw gwleidyddiaeth ac ymhle mae’n digwydd. Fel y mae’r argyfwng hinsawdd yn dangos yn glir, mae’r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan gysylltiadau rhyngwladol yn ddigynsail. Ond, mae newid dwys hefyd yn gwahodd elfen gref o ailddychmygu natur ein gwleidyddiaeth, ein perthynas â’n gilydd, a’n bodolaeth yn y byd.

Bydd y rhaglen MA Cysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi myfyrwyr mewn sefyllfa i ddeall cymhlethdod yr ennyd gythryblus hon yng ngwleidyddiaeth y byd ac i feddwl trwy’r ystyron, yn ddamcaniaethol ac ymarferol. Os mai mewn cysylltiadau rhyngwladol neu ddisgyblaeth arall y mae eich cefndir, bydd yr ystod o fodiwlau ac arbenigedd academaidd a ddarperir gan ein rhaglen MA yn eich annog i ehangu eich gorwelion ac archwilio’r amryfal bosibiliadau gwahanol ar gyfer darlunio gwleidyddiaeth ryngwladol heddiw.

**Llwybrau**

Mae MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar gael fel gradd llwybr hyfforddiant ymchwil neu arbenigol. Mae myfyrwyr sy'n astudio'r llwybr Arbenigol yn dilyn astudiaeth uwch yn benodol i bwnc, drwy fodiwl craidd a nifer o fodiwlau opsiynol, ynghyd â thraethawd hir. Mae'r rhai sydd ar lwybr Hyfforddiant Ymchwil yn dewis cyfres o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn lle rhai o'r modiwlau dewisol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwl craidd International Politics, ynghyd â'r Dissertation.

**International Politics: Theories and Concepts**

Archwilio cysyniadau 'clasurol' mewn Cysylltiadau Rhyngwladol, megis yr anghytuno ynghylch ystyron anarchiaeth, sofraniaeth, pŵer a diogelwch, yn ogystal â swyddogaeth trefedigaethedd, yr amgylchedd, a rhywedd. Rhoddir sylw i anghysondeb a gwahaniaethau ystyr a dadogir i gysyniadau craidd, y canlyniadau gwleidyddol, moesegol, ymarferol a methodolegol sy'n deillio o'r cysyniadau a ddefnyddiwyd, a swyddogaeth dyfeisgarwch cysyniadol wrth astudio materion ar bynciau deinamig ac amrywiol.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Knowledge and Expertise in International Politics
- Gender and Transformative Approaches to Peace
- Post-Western International Relations
- Middle Powers and the Liberal Order
- Global Challenges and the Future of International Relations Theory
- Indigenous Politics: Challenging the Global Order?

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** MA.

**Cod y cwrs:** L287S (llwybr arbenigol), L287R (llwybr hyfforddiant ymchwil).

**Hyd:** 1 flwyddyn (llawn-amser)

# Gwleidyddiaeth Ryngwladol

## (Gradd Ddeuol gyda'r American University)

## MA

Mae'r radd MA ddwy flynedd newydd a chyffrous hon mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn eich galluogi i astudio gydag ysgolheigion amlwg mewn dwy adran a chanddynt enw da am ansawdd eu dysgu a'u hymchwil, sef Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth a'r Ysgol Gwasanaeth Rhyngwladol yn yr American University, Washington, D.C.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddwch yn astudio yn Aberystwyth. Byddwch nid yn unig yn astudio cysyniadau sy'n sail i astudio Cysylltiadau Rhyngwladol (megis sofraniaeth, anarchiaeth, a diogelwch) ond hefyd yn cwestiynu'r cysyniadau hynny mewn modd trwyadl ac aml-haenog, a hynny o safbwyntiau sy'n tarfu ar y ddealltwriaeth gonfensiynol o gysylltiadau rhyngwladol a sut maent yn gweithredu.

Yn ystod yr ail flwyddyn yn Washington D.C., bydd y modiwlau dewisol y byddwch yn eu hastudio yn fwy seiliedig ar bolisi, a chânt eu cyfuno â modiwlau craidd mewn methodoleg Gwyddor Gymdeithasol ac Economeg. Cewch gyfle i gysylltu eich astudiaethau â phrofiad ymarferol â'r gymuned bolisi, ac mae Ysgol Gwasanaeth Rhyngwladol yr American University mewn sefyllfa unigryw i'ch galluogi i wneud hynny. Cewch gyfle hefyd i ymgeisio am interniaethau gyda chyrff llywodraethol neu anllywodraethol yn Washington D.C. dan y Cynllun Hyfforddiant Ymarferol Dewisol wedi ichi gwblhau eich gradd.

**Llwybrau**

Mae'r MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Gradd Ddeuol gyda'r American University) ar gael fel llwybr gradd Arbenigol. Bydd myfyrwyr sy'n astudio am y radd hon hefyd yn manteisio yn sgil cyfuno astudiaethau uwch mewn pynciau penodol yn Aberystwyth â modiwlau craidd mewn methodoleg ymchwil yn y Gwyddorau Cymdeithasol ac Economeg, yn ogystal â modiwlau dewisol o'r maes y maent wedi dewis arbenigo ynddo, a'r rheini'n cael eu hastudio yn yr American University.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ymhlith y modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio yn Aberystwyth mae International Politics ynghyd â'r Papur Ymchwil, sy'n rhoi cyfle ichi baratoi darn manwl o ymchwil trwy gyfrwng proses ac iddi strwythur ac arweiniad.

Byddwch hefyd yn dewis o blith ystod o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Knowledge and Expertise in International Politics
- Gender and Transformative Approaches to Peace
- Post-Western International Relations
- Middle Powers and the Liberal Order
- Global Challenges and the Future of International Relations Theory
- Indigenous Politics: Challenging the Global Order?

Ymhlith y modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio yn Washington, D.C. mae Social Science Research Methodology ac Economics. Byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil ar raddfa fawr (naill ai'r Practicum in International Affairs neu'r Substantial Research Paper).

Byddwch yn dewis eich modiwlau eraill o un maes arbenigol sy'n cynnwys:

- Energy and Environment
- International Development
- Social Enterprise
- US Foreign Policy.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.


## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** MA.

**Cod y cwrs:** L286A.

**Hyd:** 2 mlynedd (llawn-amser)





# Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth

## MA

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r sgiliau a'r wybodaeth gysyniadol ac empirig angenrheidiol i ddeall, trafod a beirniadu ffenomena rhyng-gysylltiedig Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth.

Mae rhyfel wedi bod wrth wraidd profiad pobl ers dechrau cymunedau gwleidyddol, ac mae'n dal i fod yn nodwedd barhaus ar y system ryngwladol ac ar lawer o wladwriaethau a chymdeithasau. Trwy gydol y cwrs hwn, byddwch yn ymwneud â meysydd amrywiol y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau er mwyn deall ffenomenon rhyfel a'r ymdrech dragwyddol ond anghaffaeladwy am ddiogelwch sy'n un o nodweddion cysylltiadau rhyngwladol. Wrth ichi archwilio meysydd megis hanes milwrol, diogelwch, cudd-wybodaeth, astudiaethau strategol a chysylltiadau rhyngwladol, byddwch yn datblygu'r wybodaeth a'r offer dadansoddi angenrheidiol i ddeall cysyniadau rhyfel a rhyfela, yr amrywiol strategaethau a ddefnyddir i ryfela a'r offer cudd-wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r strategaethau hynny.

O Sun Tzu i 'Shock 'n' Awe', mae'r radd hon yn datblygu eich dealltwriaeth gysyniadol ac empirig o'r defnydd o rym mewn cysylltiadau rhyngwladol. Yn yr 21ain ganrif, â'r gobeithion cychwynnol wedi'r Rhyfel Oer am 'Drefn Fyd-eang Newydd' bellach yn pylu, mae'r ofnau ynghylch rhyfeloedd mawr ar lefel ranbarthol a hyd yn oed ar lefel fyd-eang yn cynyddu. Mae'r radd hon yn archwilio'r materion strategol pwysicaf sy'n wynebu'r byd heddiw, ac yn dadansoddi natur esblygol rhyfel a gwrthdaro, o'r gystadleuaeth draddodiadol rhwng y pwerau mawrion i fathau modern ar ryfela hybrid. Mae'r drwgdeimlad o'r newydd rhwng Rwsia a'r Gorllewin, y cynnydd o ran tensiynau yn y Dwyrain Canol a De Asia, ymwthgarwch milwrol cynyddol China, a gwrthdaro treisgar parhaus o fewn gwladwriaethau ledled y byd yn dangos yr angen o hyd am ddealltwriaeth drwyadl a beirniadol o ddynameg rhyfel, strategaeth a chudd-wybodaeth.

**Llwybrau**
Mae'r MA Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth ar gael fel llwybr gradd Arbenigol neu un Hyfforddiant Ymchwil. Bydd y myfyrwyr sy'n astudio'r llwybr Arbenigol yn dilyn astudiaethau uwch mewn pynciau penodol, a hynny trwy gyfrwng modiwl craidd a nifer o fodiwlau dewisol ynghyd â thraethawd estynedig. Bydd y rheini sydd ar y llwybr Hyfforddiant Ymchwil yn dilyn cyfres o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn hytrach na rhai o'r modiwlau dewisol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwl craidd Warfare in the Twenty-First Century ynghyd â'r Dissertation.

**Warfare in the Twenty-First Century**
Yn archwilio esblygiad rhyfela modern yn yr 21ain ganrif. Mae'n dadansoddi amrywiol agweddau ar ryfel a rhyfela yn eu ffurf fodern a hynny ar dir a môr, yn yr awyr a'r gofod, yn ogystal â'r seiberofod. Byddwch yn magu dealltwriaeth dda o'r tueddiadau strategol diweddaraf mewn meysydd megis: gwrthdaro rhwng ac o fewn gwladwriaethau, rhyfela anghymesur a hybrid, twf arfogaeth niwclear, esblygiad y 'Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth' a'r gystadleuaeth rhwng y pwerau mawrion.

Yna byddwch yn dewis o blith casgliad o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Warfare in the 21st Century
- Intelligence, Security and International Relations in the 20th Century
- Security Policy in the European Union
- War and Peace in the Middle East
- Critical Security Studies: Emerging Issues
- Thoughts of War: Strategic Theory and Thinkers.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** L252S (llwybr arbenigol), L252R (llwybr hyfforddiant ymchwil).

**Hyd:** 1 flwyddyn (llawn-amser)



# Graddau ymchwil

## MPhil, PhD.

Mae'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gwneud gwaith rhagorol yn hyfforddi myfyrwyr Doethuriaeth.

Mae myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil PhD yn rhan hanfodol o ddiwylliant ymchwil clodfawr yr Adran. Mae llwyddiannau sylweddol graddedigion PhD Aberystwyth i'w gweld yn nifer sylweddol y traethodau ymchwil sydd wedi ennill gwobrau, gwaith cyhoeddedig o ansawdd uchel a llwyddiant nodedig yn y farchnad swyddi, gan gynnwys yn y maes academaidd, adrannau llywodraethol, sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau rhyngwladol.

Mae myfyrwyr PhD yn cynllunio ac yn cyflawni darn sylweddol o ymchwil o'u cynllun eu hunain, ac yn gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth yn y ddisgyblaeth o'u dewis. Byddwch yn cael eich goruchwylio gan arbenigwyr pwnc yn yr Adran, a fydd yn eich cynghori'n ofalus drwy gydol y broses gynllunio, ymchwilio ac ysgrifennu. Bydd myfyrwyr nad ydynt eisoes wedi cwblhau rhaglen gydnabyddedig mewn dulliau ymchwil fel rhan o'u gradd Meistr, yn cyflawni pecyn cydnabyddedig ESRC o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol yn ystod blwyddyn gyntaf eu PhD.

Mae ein meysydd arbenigedd goruchwylio yn cynnwys:

- theori cysylltiadau rhyngwladol a theori gwleidyddol
- rhyfel, strategaeth, diogelwch, a chudd-wybodaeth
- democratiaeth, datganoli a gwleidyddiaeth tiriogaethol
- mudo a datblygu byd-eang
- gwrthdaro a chymodi yn dilyn gwrthdaro
- economi wleidyddol ryngwladol
- iechyd byd-eang a'r amgylchedd
- hanes rhyngwladol a milwrol
- gwleidyddiaeth y DU a'i rhanbarthau
- gwleidyddiaeth ranbarthol: Ewrop, Rwsia, y Dwyrain Canol, America Ladin, ac UDA.

Mae'r Adran hefyd yn cynnig gradd MPhil, sef gradd Meistr yn seiliedig ar ymchwil, gyda thraethawd hir 60,000 o eiriau. Cwblheir yr MPhil mewn blwyddyn os yn amser llawn, neu dros ddwy flynedd yn rhan-amser

### Goruchwylio a chynnydd

Mae ein myfyrwyr PhD ac MPhil yn mwynhau'r oruchwyliaeth orau yn y maes. Dynodir dau oruchwyliwr i bob myfyriwr, a chynhelir cyfarfodydd goruchwylio bob tair wythnos yn ystod y tymor. Mae'r system hon yn annog cydberthnasau gwaith agos iawn, sy'n arwain at gyfradd cwblhau cryf iawn.

### DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.



# Ein hymchwil

Yn Aberystwyth, byddwch wrth galon y diweddaraf o ran meddwl, archwilio a phrofi syniadau newydd ym maes gwleidyddiaeth ryngwladol! Mae ein Hadran yn ganolfan flaenllaw ar gyfer ymchwil arloesol i wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol.

Rydym yn adnabyddus am ein gweithgareddau ymchwil, ac mae ein staff a'n myfyrwyr uwchraddedig yn cynnal ymchwil ar rai o'r heriau byd-eang anoddaf a phwysicaf sy'n wynebu cymunedau heddiw. Mae hi wedi bod yn adran ymchwil flaenllaw yn y DU ac yn fyd-eang ers llawer o flynyddoedd. Rydym yn adnabyddus ledled y byd fel man lle datblygir cipolwg newydd a chyffrous ar heriau cenedlaethol, rhyngwladol a byd-eang.

O ddadansoddi ymyriadau dyngarol i ddyfodol diogelwch yr UE, o astudio ffurfiau newydd o niwed byd-eang i ddychmygu gwleidyddiaeth blanedol newydd, o astudio hanes milwrol i astudio heriau diweddaraf cynnydd niwclear a chasglu gwybodaeth, o ddadansoddi rôl Prydain mewn byd sy'n newid i ddeall rôl Cymru yn y byd - mae ein harbenigedd ymchwil yn arwain y byd, ac wedi bod yn flaenllaw wrth ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl ac arferion polisi newydd.

Yn adlewyrchu natur ein hymchwil sy'n torri tir newydd, mae ein hymchwil wedi'i barnu'n gyson fel rhyngwladol ragorol ac yn arwain y byd yn yr asesiadau Fframwaith Arbenigedd Ymchwil. Yn yr asesiad diweddaraf yn 2014, barnwyd bod 44% o'n hymchwil yn arwain y byd, a 32% yn rhyngwladol ragorol. Daethom yn 5ed yn y DU am ymchwil sy'n arwain y byd, ac yn 7fed yn gyffredinol.

Yn fyr, rydym yn cynnig amgylchedd bywiog i astudio ac i archwilio syniadau newydd. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal dwsinau o sgyrsiau gan arbenigwyr a ffurfwyr barn sy'n arwain y byd, y mae myfyrwyr, staff, a thrigolion lleol yn eu mynychu'n rheolaidd. Rydym hefyd yn cynnal nifer o grwpiau a chanolfannau ymchwil cyffrous, megis y Ganolfan Wybodaeth Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Sefydliad Coffa David Davies, y Ganolfan Astudiaethau Cudd-wybodaeth a Diogelwch Rhyngwladol, a'r Ganolfan Heriau Planedol a Gwleidyddiaeth. Eu nod yw caniatáu ar gyfer arbenigedd, trafodaeth a dadansoddi yng nghyd-destun y gymuned ymchwil gyfeillgar.

## Ein grwpiau ymchwil

Yma yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ceir cymuned o grwpiau ymchwil ffyniannus. Mae pob aelod o'r staff, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr PhD, yn aelodau o un Grŵp Ymchwil o leiaf. Mae pob Grŵp Ymchwil yn trefnu'i raglen seminarau ei hun. Mae'r rhaglen hon yn gyfle i'r staff a'r myfyrwyr ymchwil gyflwyno'u gwaith ymchwil cyfredol ac i gael adborth amdano. Mae'r Grwpiau Ymchwil hefyd yn croesawu siaradwyr gwadd ac maent yn trefnu cynadleddau a gweithdai achlysurol.

## Critical and Cultural Politics and Racialisation Research Group (CCPR)

Caiff y grŵp ymchwil rhyngddisgybledig hwn ei redeg gan fyfyrwyr, ac mae'n dod â'r rheiny sy'n gwneud gwaith a ysbrydolir gan amrywiaeth o safbwyntiau beirniadol ym maes gwleidyddiaeth ryngwladol ynghyd. Nod y CCPR yw rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig o wahanol adrannau i gyflwyno ymchwil a derbyn adborth ar eu gwaith. Mae'r grŵp hefyd yn trefnu sawl digwyddiad arall drwy gydol y flwyddyn, lle caiff y rhai sy'n cymryd rhan y cyfle i gysylltu â'r dadleuon cyfoes ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ffocws ar neodrefedigaethedd, hil, hunaniaeth, a chysylltiadau diwylliannol.

## Security Research Group (SRG)

Dyma grŵp arall sy'n cael ei redeg gan fyfyrwyr, ac mae'n ceisio cynnig platfform lle gellir dod â gwahanol ddiddordebau a disgyblaethau academaidd sy'n ymwneud ag astudio diogelwch ynghyd, a hynny mewn ffordd gynhyrchiol. Mae'r meysydd diddordeb yn cynnwys diogelwch iechyd, diogelwch amgylcheddol, diogelwch dynol, diogelwch cenedlaethol, astudiaethau cudd-wybodaeth, atebolrwydd, astudiaethau strategol, astudiaethau diogelwch argyfyngus, geowleidyddiaeth a geostrategaeth, terfysgaeth ac astudiaethau terfysgaeth argyfyngus.

## International History Research Group (IHRG)

Sefydlwyd y grŵp hwn ym mis Hydref 2004 ac mae wedi gwneud cyfraniad gweithgar i ddiwylliant ymchwil yr Adran dros y pymtheg mlynedd diwethaf. Mae'r IHRG yn ymdrin â'r holl agweddau ar hanes rhyngwladol, trawswladol a byd-eang. Mae'r grŵp wedi trefnu seminarau, fforymau trafod a symposia, ac mae'n dod â phobl ynghyd - yn fyfyrwyr uwchraddedig, ac yn gydweithwyr ar draws y Brifysgol, ac yn arbennig felly o'r Adran Hanes a Hanes Cymru.

## Interdisciplinary Gender Studies Research Group (IGSRG)

Grŵp ymchwil rhyngadrannol yw hwn a gynhelir gan yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yr Adran Seicoleg, Adran y Gyfraith a Throseddeg a'r Ysgol Gelf ar y cyd. Yn benodol, mae'r grŵp yn canolbwyntio ar gwestiynau'n ymwneud â ffeministiaeth, damcaniaeth hynod, a rhywedd. Nod y grŵp yw dod â myfyrwyr ac aelodau staff o wahanol adrannau Prifysgol Aberystwyth sydd yn rhannu diddordebau ynghyd.

## Post Human Research Group

Grŵp ymchwil amlddisgyblaeth a arweinir gan fyfyrwyr yw hwn ac mae'n creu awyrgylch agored a chroesawgar i archwilio syniadau newydd a phroblemau cyfoes o safbwynt ôl-ddynol. Sefydlwyd y grŵp yn haf 2020. Ers hynny, mae wedi trefnu ystod amrywiol o ddigwyddiadau, gan gynnwys taith gerdded a oedd yn edrych ar sut mae gofod a symud yn effeithio ar ffyrdd o wybod, a digwyddiad ar-lein yn Gathertown a oedd yn edrych ar ymgorffori rhithiol a diwylliannau afatar. Bu'r grŵp yn llwyddiannus yn ddiweddar yn sicrhau cyllid gan y gymuned uwchraddedig i drefnu gweithdy amlddisgyblaethol a oedd yn canolbwyntio ar feddwl am newid yn yr hinsawdd mewn ffordd hyblyg. Mae sawl digwyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.



# Cyflogadwyedd

## Rhagolygon gyrfaol

Ydych chi'n awyddus i wneud argraff ar y byd? Gall dewis astudio ar lefel uwchraddedig ym maes gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol agor drysau i ystod eang o gyfleoedd gyrfaol. Dyma'r gyrfaoedd sydd ymhlith y rhai poblogaidd: gwaith diplomyddiaeth, lobïo, dadansoddi gwleidyddol, cyfraith ryngwladol a chudd-wybodaeth.

## Sgiliau Trosglwyddadwy

Mae ein rhaglenni uwchraddedig yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymchwil, ysgrifennu a dadansoddi cryf yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol - sgiliau a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr.

Bydd ein rhaglenni uwchraddedig hefyd yn datblygu'r sgiliau canlynol:

- strwythuro a chyfathrebu syniadau cymhleth yn effeithiol
- ysgrifennu ac annerch amrywiol gynulleidfaoedd
- gwerthuso a threfnu gwybodaeth
- gweithio'n effeithiol gydag eraill
- gweithio i amserlen a chwrdd â therfynau amser penodol.

Mae ein graddedigion yn gweithio ym meysydd:

- gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol
- y Swyddfa Dramor
- y Weinyddiaeth Amddiffyn
- sefydliadau anllywodraethol (NGOs)
- sefydliadau rhyngwladol
- newyddiaduraeth
- busnes
- addysg
- y lluoedd arfog.

Mae llawer hefyd yn dewis y proffesiwn cyfreithiol. Ac mae rhai wrth eu bodd mewn amgylchedd addysgiadol ac yn dewis aros yn y byd academaidd ac yn datblygu i fod yn ysgolheigion amlwg.

## Cwrdd ag un o'n cyn-fyfyrwyr:

### Ian Crook, arbenigwr ar gudd-wybodaeth gyda Google

Yn fy swydd bresennol, rwy'n gyfrifol am gasglu a dadansoddi ffynonellau agored, monitro datblygiadau rhanbarthol a rhyngwladol, cynnig cefnogaeth weithredol pan fo digwyddiadau, a rheoli argyfyngau i amddiffyn asedau, gweithwyr, ac enw da.

**Pam y dewisais i Brifysgol Aberystwyth**
Dewisais i Aberystwyth gan mai'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol hon oedd y cyntaf o'i bath. Oherwydd hynny, mae'r adran wedi bod yn uchel ei bri ers ei sefydlu yn y flwyddyn 1919. Pan ymwelais â'r adran, cefais argraff dda iawn o'r adeilad ei hun a'r awyrgylch croesawgar. Ac roedd treulio rhai dyddiau yn nhref brydferth Aberystwyth yn ddigon i fy mherswadio fy mod yn dymuno dod i'r Brifysgol yma. Mae'n amgylchedd gwych ar gyfer gweithio a chymdeithasu!

**Sut roedd y profiad academaidd**
Mae'r profiad academaidd yn Aberystwyth yn un na fyddaf byth yn ei anghofio. Ceir yma athrawon sy'n adnabyddus ar lefel ryngwladol, ansawdd dysgu uchel, a diwylliant ymchwil cyfoethog. Roedd hyn oll yn ddigon i ennyn fy niddordeb yn y cwrs ac i fy annog i archwilio'n drylwyr sawl is-destun ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol mewn modd llwyddiannus.

Roedd cynullwyr y modiwlau'n hawdd iawn i fynd atynt pan oedd angen cefnogaeth arnaf wrth fynd i'r afael ag ymchwil ac aseiniadau ysgrifenedig.

Yn ogystal, roedd yr ystod o fodiwlau oedd ar gael trwy gydol y radd israddedig wedi fy ngalluogi i a'n nghyd-fyfyrwyr i fod yn annibynnol wrth ddewis ein pynciau arbenigol. Heb os, roedd hyn wedi creu profiad unigryw i bawb oedd ar y cwrs ac yn gyfle inni fynd ar drywydd ein diddordebau ein hunain er mwyn creu ffocws i'n hastudiaethau. Roedd hyn yn fuddiol iawn i mi gan yr oeddwn yn awyddus i ddilyn gyrfa benodol.

Fe es ymlaen i astudio am radd Meistr yn Aberystwyth hefyd. Roedd y radd uwchraddedig yn gyfle i mi ddod i ddeall maes arbenigol o fewn y pwnc yn drylwyr, ac roedd yn fodd i mi ddod o hyd i waith a oedd yn gysylltiedig â fy astudiaethau.

**Y pethau gorau am fy amser yn Mhrifysgol Aberystwyth**
Rwy'n ystyried fy amser yn Aberystwyth ymhlith rhai o flynyddoedd gorau fy mywyd. Ces i gyfle i wneud ffrindiau gwych, i fwynhau'r ochr gymdeithasol o fywyd prifysgol, i gwrdd â thoreth o bobl gwahanol a diddorol, ynghyd â chael profiad academaidd gwych. Byddwn yn argymell Aberystwyth i unrhyw un sy'n meddwl astudio am radd!



# Gweithgareddau allgyrsiol

Caiff gweithgareddau allgyrsiol niferus eu trefnu gan ein cymuned ymchwil o fri rhyngwladol, a bwriad y rhain yw cyfoethogi amrywiaeth a dyfnder y profiad uwchraddedig rydym ni'n ei gynnig.

Yn benodol ar gyfer myfyrwyr MA, cynhelir y Gyfres Seminarau Meistr Gwleidyddiaeth Ryngwladol (IPMSS) bob pythefnos. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen amrywiol o sgyrsiau bob semester gan aelodau academaidd o staff, trafodaethau bwrdd crwn ar bynciau cyfoes mewn gwleidyddiaeth ryngwladol a dangosiadau o ddogfennau a ffilmiau. Mae hefyd yn gyfle i fyfyrwyr drafod eu prosiectau traethawd hir a derbyn cefnogaeth ac adborth.

Mae nifer o grwpiau ymchwil hefyd yn weithredol yn yr Adran dan ofal myfyrwyr PhD, sy'n trefnu digwyddiadau rheolaidd fel sgyrsiau a grwpiau darllen. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp Ymchwil Ôl-ddyniaethau, y Grwpiau Ymchwil Gwleidyddiaeth Feirniadol a Diwylliannol a Radicaleiddio a'r Grŵp Ymchwil Crefydd, Gwleidyddiaeth ac Athroniaeth. Mae croeso i'r holl fyfyrwyr uwchraddedig ymuno â'r grwpiau ymchwil hyn, neu sefydlu eu grwpiau eu hunain ar y meysydd ymchwil sydd o ddiddordeb iddynt.

Yn ogystal rydym ni'n gartref i nifer o ganolfannau ymchwil a redir gan staff academaidd sy'n cyflwyno digwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Gwleidyddiaeth Ryngwladol Gwybodaeth, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, y Ganolfan Heriau Planedol a Gwleidyddiaeth, y Ganolfan Astudiaethau Cudd-wybodaeth a Diogelwch Rhyngwladol ac Athrofa Goffa David Davies.

Yn olaf, bob wythnos yn ystod y tymor rydym ni'n cynnal Seminar Ymchwil Gwleidyddiaeth Ryngwladol, lle bydd academydd ymweliadol, aelod o staff neu fyfyriwr PhD yn cyflwyno eu hymchwil cyfredol. Mae'r gyfres hon o seminarau'n ganolog i'n diwylliant ymchwil ac mae'r holl fyfyrwyr PhD ac aelodau o staff yn mynychu. Rydym ni'n annog ein myfyrwyr MA yn gryf i gymryd rhan hefyd, gan fod y gyfres yn cynnig cyfle rhagorol i ymgysylltu ag ymchwil arloesol mewn gwleidyddiaeth ryngwladol.






# Proffiliau myfyrwyr



## Fiona Young

**MA student (2020-21); PhD (2021-)**

I chose Aberystwyth University for the high quality of its International Politics programme and engaging research community. I came to Aberystwyth for the first time as an international exchange student during my undergraduate degree and quickly became attached to the program as well as the town itself. I am studying International Relations with a concentration on Critical Security. Next year I will be pursuing my PhD in International Relations here at Aberystwyth, an opportunity that would not have been possible without the support and encouragement which I received from my mentors, peers, and the overall community which makes Aberystwyth unique. I plan to pursue a career dedicated to research, and my time here in Aberystwyth will put me in a position to drive policy with research-backed analysis in order to bring about effective change.



## Harry Warne

**MA student (2020-21); PhD (2021-)**

When I decided to pursue postgraduate study I knew I had to return to Aberystwyth and the Interpol department. I had loved every minute of life in Aberystwyth and there really is no better politics department in Wales which can offer the critical perspectives this department offers. I first moved to Wales when I studied in Aber as an undergraduate and the combination of a beautiful and friendly town and my desire to produce work which helps contribute to academic and political discourse within the country which adopted me made the Interpol department the obvious choice. Even though I was away for a few years in between I was re-welcomed like I never left. Aberystwyth is a really special place full of special people. I know my time here will equip me to make an impact in my field, using the critical tools Aberystwyth has granted me. Also beach bonfires are a little slice of heaven.



## Joseph Thurgate

**MA student (2019-20); PhD (2020-)**

Hi. I'm Joe. Last year I completed my MA in International Politics - Research Training, and now I'm settling into the 1st year of my PhD focusing on the experiences of young people seeking asylum in the UK. I developed my research question while working for the British Red Cross and chose Aberystwyth to explore my subject because of its excellent reputation. It has been the perfect place to develop my project; the department has supported my ideas while also really pushing me to think critically about the subject. I also chose Aberystwyth for its amazing location on the Welsh coast, and I'm glad that I did. Walking along the coastal path, and swimming and surfing in the sea with friends, have been ideal ways to unwind and relax after busy days in the office.




Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3FE
Cymru, DU

+44 (0) 1970 621537
interpol@aber.ac.uk
/InterpolAber
@InterpolAber
/Interpolaber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.